**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**13 RHAGFYR 2022**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Iau, 13 Rhagfyr 2022.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Mared Eastwood (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Glyn Banks, Pam Banks, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Gillian Brockley, Helen Brown, Mel Buckley, Teresa Carberry, Tina Claydon, David Coggins Cogan, Geoff Collett, Steve Copple, Bill Crease, Paul Cunningham, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, David Evans, Chrissy Gee, David Healey, Ian Hodge, Andy Hughes, Dave Hughes, Ray Hughes, Alasdair Ibbotson, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Simon Jones, Dave Mackie, Gina Maddison, Roz Mansell, Allan Marshall, Ryan McKeown, Billy Mullin, Debbie Owen, Ted Palmer, Andrew Parkhurst, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Carolyn Preece, David Richardson, Ian Roberts, Dan Rose, Kevin Rush, Dale Selvester, Jason Shallcross, Sam Swash, Linda Thew, Linda Thomas, Roy Wakelam ac Antony Wren.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol, Rheolwr Corfforaethol, Eiddo ac Asedau, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, Rheolwr Refeniw a Chaffael, Arweinydd Tîm Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd.

**YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB:**
Y Cynghorwyr: Jean Davies, Carol Ellis, Gladys Healey, Dennis Hutchinson, Richard Lloyd, Hilary McGuill, Ant Turton ac Arnold Woolley.

Talwyd teyrngedau i gyn Gynghorydd Bwrdeistref Delyn a Chynghorydd Sir y Fflint, y Cynghorydd Karin Davies, a oedd yn cynrychioli ward Treffynnon, a fu farw'n ddiweddar. Canmolwyd ei ffyddlondeb, a byddai teulu a ffrindiau'n hiraethu amdani. Cydymdeimlwyd â'r teulu.

## 53. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Peers gysylltiad personol ag eitem rhif 6 ar y rhaglen – Cynllun Premiwm Treth y Cyngor i Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor. Datganodd y Cynghorydd Preece gysylltiad personol sy'n rhagfarnu â'r un eitem.

## 54. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 27 Medi a 18 Hydref.

Cynigiodd y Cynghorydd Attridge eu bod yn gofnod cywir a chafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Rob Davies.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

## 55. CYHOEDDIADAU’R CADEIRYDD

Fe eglurodd y Cadeirydd fod ei chyhoeddiadau wedi’u hanfon at bob Aelod dros e-bost yn gynharach yn ystod yr wythnos honno.

Soniodd am ei hymweliad â’r Gwasanaeth Maethu yn Nhŷ Nyth ar 4 Tachwedd a dywedodd ei fod yn ased hyfryd.

## 56. DEISEBAU

Ni chyflwynwyd deisebau.

## 57. CYNLLUN PREMIWM TRETH Y CYNGOR I AIL GARTREFI AC EIDDO GWAG HIRDYMOR

Ar ôl datgan cysylltiad personol sy’n rhagfarnu yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd Preece yr ystafell cyn i’r eitem gael ei chyflwyno.

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) yr adroddiad ac eglurodd fod ymgynghoriad cyhoeddus eang wedi’i gynnal ar gais y Cabinet rhwng 8 Tachwedd 2021 a 6 Rhagfyr 2021 i ganfasio barn y cyhoedd am y cynllun premiwm Treth y Cyngor presennol, ei effeithiolrwydd a’i effaith ar y gymuned leol, a defnydd o’r cynllun i gymell perchnogion i ddod ag eiddo i ddefnydd llawn er mwyn cefnogi cyflenwad tai lleol ar gyfer preswylwyr lleol. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn archwilio dewisiadau ar addasiadau i’r cyfraddau premiwm a’r manteision a risgiau canfyddedig o fabwysiadu unrhyw gynllun amgen neu gynllun wedi’i ddiwygio.

Daeth 504 o ymatebion i’r ymgynghoriad i law gan amrywiaeth eang o bobl a chafodd yr ymatebion eu crynhoi yn yr adroddiad.

Roedd rôl y premiwm yn canolbwyntio ar annog perchnogion eiddo gwag hirdymor i ddod â nhw’n ôl i ddefnydd gyda’r baich ariannol a materion fforddiadwyedd a allai fod ar y partïon hynny, fel perchnogion newydd neu berchnogion presennol nad oedd ganddynt ddewis neu arian i gymryd camau uniongyrchol i ddod â’r eiddo’n ôl i ddefnydd.

Eglurodd y Rheolwr Refeniw a Chaffael, o’r blaen, ers mis Ebrill 2017 pan gyflwynwyd y cynllun, roedd cyfradd premiwm o 50% wedi’i chyflwyno ar gyfer anheddau a ddynodwyd fel rhai wedi’u meddiannu o bryd i’w gilydd (cyfeirir atynt fel arfer fel ail gartrefi) neu eiddo gwag hirdymor.

Ychwanegodd fod cwestiynau wedi’u gofyn hefyd fel rhan o’r ymarfer ymgynghori i’r rhai a allai gael eu heffeithio o bosibl pe bai’r cyfraddau’n cynyddu. I gloi, roedd bron dau draean o ymatebwyr yn teimlo bod eiddo gwag hirdymor yn cael effaith negyddol ar eu cymuned leol. Roedd bron hanner yr ymatebwyr yn teimlo bod ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar eu cymuned leol. Roedd rhywfaint dros hanner yr ymatebwyr yn teimlo y dylid cynyddu’r gyfradd premiwm i fwy na 50%.

Roedd yr adroddiad yn darparu manylion am gyfraddau premiwm awdurdodau lleol eraill.  Roedd y Cabinet wedi argymell 75% ar gyfer eiddo gwag hirdymor a 100% ar gyfer ail gartrefi.

Pe bai'r Cyngor yn penderfynu codi lefel y premiwm ar eiddo gwag hirdymor a/neu ail gartrefi, roedd posibilrwydd o gynyddu arenillion Treth y Cyngor a defnyddio unrhyw refeniw ychwanegol a gynhyrchir i helpu i ddiwallu anghenion tai lleol yn unol â bwriadau polisi'r cynllun premiwm.

Byddai'r refeniw ychwanegol a gynhyrchir i gefnogi gwasanaethau yn dibynnu ar lefel ddiwygiedig y cyfraddau premiwm ond byddent yn cynnwys £101,000 ychwanegol am bob ardoll 10% ychwanegol sy'n uwch na 50% ar eiddo gwag hirdymor a £28,000 ychwanegol am bob ardoll 10% ychwanegol ar ail gartrefi dynodedig.  Roedd tablau yn yr adroddiad yn darparu darluniadau o'r cynnydd ar gyfer 50%, 60%, 70%, 75% a 100%.

Roedd diwygiad i'r argymhelliad fel a gafodd ei argraffu yn yr adroddiad, a'r diwygiad oedd "Bod y Cyngor yn ystyried y gyfradd premiwm bresennol o 50% ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor a phenderfynu a ddylid amrywio'r gyfradd i 75% ar gyfer eiddo gwag hirdymor a 100% ar gyfer ail gartrefi o fis Ebrill 2023, yn unol ag argymhelliad y Cabinet."

Cynigiodd y Cynghorydd Mullin yr argymhelliad a chafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Bithell.

Eglurodd y Cynghorydd Bithell fod cartrefi gwag yn rhan o'i bortffolio ar y Cabinet ac roedd yn teimlo nad premiymau Treth y Cyngor oedd yr unig ateb i faterion cymhleth wrth ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.  Roedd pobl ddigartref a oedd angen llety ac roedd eiddo ar draws y sir yn cael eu gadael yn wag.

Roedd y Cynghorydd Richard Jones yn teimlo bod yr ymateb i'r ymgynghoriad yn isel a chanrannau'r ymatebion yn agos.  Soniodd am y potensial i arbed £390,000 a holodd ai dyna oedd y rheswm dros y cynigion oedd gerbron yr Aelodau, nad oedd yn teimlo y gellid dibynnu arnynt.   Dywedodd os byddai preswylwyr yn newid eu hymddygiad, roedd siawns na fyddai unrhyw arian ychwanegol yn dod i law.

Diolchodd y Cynghorydd Carberry i swyddogion am eu gwaith ar yr adroddiad a'r graffeg oedd ynddo.  Roedd yn teimlo bod maint sampl yr ymgynghoriad yn dda o'i gymharu ag ymgynghoriadau cenedlaethol.

Roedd y Cynghorydd Swash yn cefnogi argymhelliad y Cabinet a oedd yn dweud bod y data'n profi bod y premiwm 50% yn methu â'r nod o ddod â'r cartrefi yn ôl i ddefnydd, a'r argyfwng tai oedd yr her fwyaf oedd y Cyngor yn ei wynebu.

Roedd y Cynghorydd Parkhurst yn cefnogi'r cynnig o 75% ar gyfer eiddo gwag hirdymor i gynorthwyo â'r prinder tai.  Fodd bynnag, roedd yn teimlo bod mesurau'n cael eu brysio ac nad oedd goblygiadau 75% ar gyfer llety hunanddarpar a oedd yn dod i mewn i gategori ail gartrefi wedi'i ystyried yn ddigonol.  Cynigiodd ddiwygiad, sef cynyddu eiddo gwag hirdymor i 75% ond

gadael ail gartrefi ar 50%, yn amodol ar werthusiad o’r effaith o ran llety hunanddarpar trwy gyfrwng Grŵp Tasg a Gorffen. Gwnaeth y Cynghorydd Attridge eilio’r diwygiad.

Wrth gefnogi’r diwygiad, soniodd y Cynghorydd Peers am yr amgylchiadau pan fo rhywun wedi etifeddu eiddo a fyddai wedyn wedi’i gyfrif fel ail gartref ac a fyddai’n destun treth ar enillion cyfalaf. Nid oedd canlyniadau hynny wedi’u cynnwys yn yr adroddiad a holodd am yr anghyfartaledd rhwng y ddwy gyfradd.

Gofynnodd y Cynghorydd Crease am eglurhad o ran a oedd yn ymwneud â chodi refeniw neu ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Dywedodd y Cynghorydd Bithell, fel Aelod Cabinet Cartrefi Gwag, ei fod yn eilio’r argymhellion dim ond ar sail dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd, ac nid o safbwynt incwm refeniw, fodd bynnag byddai rhywfaint o refeniw yn dod i law.

Gan ymateb i gwestiwn o ran a oedd Aelod yn teimlo bod y Cod Ymddygiad wedi’i dorri gan Aelod arall, dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y dylid ceisio cyngor naill ai ganddo ef neu’r Dirprwy Swyddog Monitro y tu allan i’r cyfarfod.

Siaradodd nifer o Aelodau o blaid y diwygiad, gydag un Aelod yn siarad yn ei erbyn. O'i roi i bleidlais, COLLWYD y diwygiad.

Holodd y Cynghorydd Peers am effeithiolrwydd y cynllun oedd â’r bwriad o gymell perchnogion i ddod ag eiddo’n ôl i ddefnydd llawn er mwyn cefnogi cyflenwad tai lleol ar gyfer preswylwyr lleol. Rhoddodd enghraifft, sef pe bai preswyliwr yn etifeddu eiddo a oedd werth mwy na £200,000, nid oedd yn gartref fforddiadwy. Gofynnodd a oedd tystiolaeth o werth ail gartrefi oherwydd nad oedd y wybodaeth honno wedi’i chynnwys yn yr adroddiad, a oedd yn ei gwneud yn anodd deall sut fyddai’r eiddo sy’n dod yn ôl i ddefnydd yn cefnogi’r farchnad tai fforddiadwy. Holodd beth fyddai’r incwm ychwanegol yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer, a theimlai y byddai naill ai i gefnogi’r galw am wasanaethau neu anghenion tai lleol, nad oedd yn teimlo oedd wedi’i ddangos.

Dywedwyd wrth Aelodau fod angen iddynt bleidleisio ar y prif gynnig, sef cynnydd i 75% ar eiddo gwag hirdymor a 100% ar gyfer ail gartrefi, a gafodd ei BASIO.

Dychwelodd y Cynghorydd Preece i’r ystafell a rhoddwyd gwybod iddo am y penderfyniad.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y gyfradd premiwm yn cael ei chynyddu i 75% ar gyfer eiddo gwag hirdymor a 100% ar gyfer ail gartrefi o fis Ebrill 2023.

**58. DIWYGIO ETHOLIADOL YNG NGHYMRU**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) yr adroddiad ac eglurodd fod Llywodraeth Cymru (LlC) wedi ymgynghori ar flaenoriaethau uniongyrchol am ddiwygio yn 2017, yn y Papur Gwyn Diwygio Etholiadol ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru. Lluniwyd deddfwriaeth ar gyfer y blaenoriaethau

uniongyrchol drwy Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Un o’r newidiadau oedd y gallai awdurdodau lleol benderfynu mabwysiadu system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer eu hetholiadau, yn lle’r system Cyntaf i’r Felin. Roedd rhan gyntaf yr adroddiad yn egluro’r broses.

Roedd ail ran yr adroddiad yn egluro’r Papur Gwyn Gweinyddu a Diwygio Etholiadol a sut yr oedd LlC yn ceisio cyflymu eu rhaglen ddiwygio a sôn am yr hyn yr oeddent yn ei ddisgrifio fel cynllun uchelgeisiol i foderneiddio gweinyddiaeth etholiadol yng Nghymru.

Roedd y Papur Gwyn yn cynnwys cynigion ar gyfer:

- Hyrwyddo ymgysylltiad mewn etholiadau
- Ei gwneud hi’n haws a mwy syml sefyll mewn etholiad
- Deddfwriaeth i foderneiddio gweinyddiaeth etholiadau
- Deddfwriaeth i wella’r ffordd o gynnal adolygiadau etholiadol a chymunedol ar gyfer llywodraeth leol
- Deddfwriaeth i gydgrynhoi cyfraith etholiadol
- Cynigion mwy hirdymor ar gyfer diwygio etholiadol i gefnogi democratiaeth yng Nghymru yn y dyfodol

Y dyddiad cau i ymateb i’r ymgynghoriad oedd 10 Ionawr 2023.

Roedd trydedd rhan yr adroddiad yn crynhoi Deddf Etholiadau 2022, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2022 ac a oedd yn berthnasol ar gyfer etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Seneddol y DU.

Fe wnaeth effaith Deddf Etholiadau 2022 greu ymwahaniad yng Nghymru a amlygwyd yn yr adroddiad.

Un o’r newidiadau oedd y gallai awdurdodau lleol benderfynu mabwysiadu system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer eu hetholiadau, yn lle’r system Cyntaf i’r Felin. Roedd rhan gyntaf yr adroddiad yn egluro’r broses.

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod y system cyntaf i’r felin yn cael ei defnyddio ar gyfer etholiadau’r Cyngor Sir ar hyn o bryd. Gallai’r Cyngor symud i system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy a byddai LlC yn darparu rhagor o ganllawiau am hyn ac eglurder o ran y cwota. Pe bai’r Cyngor am ddefnyddio system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy, byddai angen cynnal adolygiad o ffiniau i ddechrau. Byddai hynny’n golygu wardiau o rhwng tri a chwe Aelod.

Cynigiodd y Cynghorydd Roberts yr argymhellion yn yr adroddiad ac fe’u heiliwyd gan y Cynghorydd Johnson.

Mynegodd y Cynghorydd Roberts bryderon am y gofyniad am brawf adnabod pleidleiswyr a allai roi pwysau ar y tîm o ran cofrestru hwyr. Dywedodd mai etholiadau Llywodraeth y DU oedd â’r nifer uchaf o bleidleiswyr, a oedd yn gweithredu system cyntaf i’r felin. Roedd nifer sylweddol is yn pleidleisio yn etholiadau Llywodraeth Cymru (LlC) ac roedd y broses ar gyfer etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn ddryslyd. Nid oedd o blaid wardiau mawr

â sawl aelod, a soniodd am bwysigrwydd y cysylltiad rhwng Aelodau lleol a'u cymuned.  Awgrymodd weithdy i'r holl Aelodau i ddatblygu'r hyn oedd angen, a gofynnodd a oedd modd estyn dyddiad cau 10 Ionawr.  Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y gellid gwneud cais i estyn y dyddiad cau ac os na fyddai'n cael ei gymeradwyo, byddai barn o'r cyfarfod heddiw yn ffurfio rhan o'r ymateb.  Gellid trefnu gweithdy i Aelodau fel a awgrymwyd, er mwyn nodi materion allweddol.

Fel eilydd, roedd y Cynghorydd Johnson yn cefnogi'r cais i estyn y dyddiad cau oherwydd bod y ddogfen yn fanwl iawn a bod angen ymateb pwyllog.

Gwnaeth Aelodau ar draws y Siambr sylwadau am agweddau ar y ddogfen gyda'r rhan fwyaf yn cefnogi system cyntaf i'r felin a chytuno â sylwadau'r Cynghorydd Roberts am bwysigrwydd y ffaith fod Aelodau'n cadw cynrychiolaeth leol.

Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y byddai estyniad i'r dyddiad cau yn cael ei geisio a phe bai'n cael ei gymeradwyo, byddai gweithdy i'r holl Aelodau'n cael ei drefnu.

Gan wneud sylwadau am yr argymhellion, awgrymodd y Cynghorydd Roberts bedwerydd argymhelliad, sef "bod llythyr yn cael ei anfon at Lywodraeth y DU i fynegi'r pryderon a godwyd am ymarferoldeb costau prawf adnabod pleidleiswyr", a gafodd ei gefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nad yw'r Cyngor yn cefnogi mabwysiadu'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy;

(b) Bod cais yn cael ei wneud am estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r Papur Gwyn Gweinyddu a Diwygio Etholiadol ac os caiff ei dderbyn, bod gweithdy ar gyfer yr holl Aelodau'n cael ei drefnu.  Pe bai'r cais am estyniad yn cael ei wrthod, byddai'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau yn cyflwyno ymateb yn unol â'r farn a fynegwyd gan Aelodau erbyn 10 Ionawr;

(c) Bod gofynion Deddf Etholiadau 2022 yn cael eu nodi, a'r camau arfaethedig i leihau difreinio posibl yn cael eu cymeradwyo; a

(d) Bod llythyr yn cael ei anfon at Lywodraeth y DU i fynegi'r pryderon a godwyd am ymarferoldeb costau prawf adnabod pleidleiswyr.

## 59. RHYBUDD O GYNNIG

Roedd y Rhybudd o Gynnig canlynol wedi'i gyflwyno gan y Cynghorydd Rose a'i gefnogi gan y Cynghorydd Preece;

"Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r defnydd presennol o nifer o fathau o anifeiliaid mewn amryw ddigwyddiadau a gynhelir gan sefydliadau preifat, cyfeillion grwpiau a'r Cyngor ar draws y Sir ac mae'n dymuno parhau i wneud

popeth o fewn ei allu i hyrwyddo, diogelu ac annog safonau uchel o ran lles anifeiliaid.

Mae'r RSPCA yn nodi eu bod yn gwrthwynebu defnyddio anifeiliaid fel rhan o adloniant neu ddigwyddiadau anifeiliaid pan fo'n debygol y caiff gofid neu ddioddefaint eu hachosi i anifail. Fodd bynnag, mae'r sefydliad hefyd yn cydnabod manteision mathau penodol o ddigwyddiadau sy'n defnyddio anifeiliaid, er enghraifft:-

- digwyddiadau ystwythder cŵn sy'n cynnwys hyfforddi cŵn i redeg trwy a thros rwystrau gan ddefnyddio danteithion, teganau a chanmoliaeth; a
- defnyddio anifeiliaid mewn ysgolion a sefydliadau addysgol eraill (h.y. ar ffurf ymweliadau yn hytrach na bod y sefydliadau addysgol yn cadw'r anifeiliaid eu hunain) â'r bwriad o addysgu pobl ifanc am ofal a lles anifeiliaid, sy'n gam cadarnhaol tuag at roi diwedd ar greulondeb tuag at anifeiliaid yn y dyfodol.

Mae cyflwyno Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021 yn gam sylweddol tuag at reoli achosion o ddefnyddio anifeiliaid a dod i gyswllt â nhw mewn modd effeithiol a sicrhau eu lles. Fodd bynnag nodir y gallai fod achosion lle bydd gofyn i'r Awdurdod (yn ôl y gyfraith) roi trwydded os bydd pob amod perthnasol wedi'u bodloni, er na fydd pob digwyddiad wedi'u cefnogi gan y Cyngor mewn egwyddor.

Er gwaetha'r uchod, mae'r Cyngor o'r farn:-

- na ddylai unrhyw anifail orfod bod dan straen na dioddef;
- dylid cymryd pob cam priodol i liniaru unrhyw risg o straen neu ddioddef i anifeiliaid mewn unrhyw ddigwyddiadau perthnasol sy'n cael eu cynnal gan unrhyw sefydliad yn y Sir;
- gallai anifeiliaid penodol, fel cŵn, elwa o gymryd rhan mewn digwyddiadau ond dylid cymryd camau i sicrhau eu lles a lleihau unrhyw risg iddynt; a
- caiff anifeiliaid eu defnyddio mewn achosion penodol – fel mewn ysgolion, sefydliadau addysgol eraill a lleoliadau cymunedol at ddibenion addysgol a chadwraeth, gan elusennau cofrestredig addas – lle bo'n briodol ac ni chânt unrhyw effaith negyddol ar les anifeiliaid os caiff digwyddiadau o'r fath eu rheoli'n briodol.

Felly, mae'r Cyngor yn penderfynu:-

I. nodi goblygiadau deddfwriaeth drwyddedu berthnasol a allai roi, neu ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi, trwyddedau i drydydd partïon er mwyn defnyddio anifeiliaid yn y Sir;
II. yn amodol ar (III) isod, rhoi'r gorau i ddefnyddio anifeiliaid mewn digwyddiadau'r Cyngor ac yn benodol, na fydd unrhyw ddigwyddiad wedi'i drefnu gan y Cyngor yn cynnwys defnyddio ceirw na mulod;
III. y caniateir defnyddio anifeiliaid fel adar, cŵn, ymlusgiaid ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn fel pryfaid cop, sgorpionau, anifeiliaid cramennog neu folysgiaid mewn digwyddiadau wedi'u trefnu gan y Cyngor dim ond:-

A. pan fo'r anifeiliaid wedi'u harddangos at ddibenion addysgol neu at ddibenion sy'n gyson â'u cynefin a gweithgareddau naturiol; a
B. phan fo gan y sefydliad di-elw perthnasol sy'n darparu'r anifail/anifeiliaid dystysgrif a roddwyd yn unol â Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021; a
C. phan fo unrhyw fesurau lliniarol priodol fel sy'n ofynnol gan swyddogion perthnasol y Cyngor wedi'u rhoi ar waith i sicrhau lles yr anifail/anifeiliaid dan sylw ac i sicrhau nad ydynt mewn
perygl wrth gymryd rhan yn y digwyddiad.

IV. gweithredu'r egwyddorion yn (II) a (III) ar gyfer digwyddiadau wedi'u trefnu gan sefydliadau eraill pan ofynnir am gydweithrediad y Cyngor ar wahân i rwymedigaethau statudol, fel mewn achos cau ffyrdd, cyhoeddusrwydd, a defnyddio adeiladau neu dir y Cyngor ac ati,

V. dosbarthu'r penderfyniadau uchod i bob adran berthnasol, ac i ysgolion.

Wrth siarad am y Rhybudd o Gynnig, diolchodd y Cynghorydd Rose i Aelodau ar draws y Siambr am eu cefnogaeth cyn y cyfarfod a dywedodd fod lles anifeiliaid yn bwysig i bob Aelod. Roedd pethau wedi symud ymlaen yn sylweddol ond roedd anifeiliaid yn dal i ddioddef yn ddiangen mewn cymunedau. Cyfeiriodd at gyngor arbenigol am geirw y tu allan i'w cynefin naturiol, gan bwysleisio pwysigrwydd cadw anifeiliaid yn eu cynefin naturiol. Roedd deg ar hugain o Gynghorau eisoes wedi gwahardd defnyddio anifeiliaid fel adloniant mewn digwyddiadau gyda 108 arall wedi cadarnhau na fyddent yn defnyddio anifeiliaid mewn digwyddiadau dros gyfnod y Nadolig. Roedd Sir y Fflint yn sefyll allan am ganiatáu defnyddio anifeiliaid mewn digwyddiadau, ac wrth gefnogi'r Rhybudd o Gynnig, byddai'n dod â Sir y Fflint yn unol ag arfer gorau.

Mynegodd y Cynghorydd Preece ei chefnogaeth i'r Cynghorydd Rose gan ddweud y byddai cefnogi'r Rhybudd o Gynnig, yn cefnogi lles anifeiliaid a dangos bod Sir y Fflint yn Gyngor gofalgar.

Ymatebodd y Cynghorydd Bithell, fel Aelod Cabinet Cynllunio, Iechyd y Cyhoedd a Gwarchod y Cyhoedd, i'r Rhybudd o Gynnig a diolchodd i'r Cynghorydd Rose a'r Cynghorydd Preece amdano. Cefnogodd yr hyn a gyflwynwyd i'r Aelodau. Eglurodd fod yr adran Brisio ac Ystadau wedi dechrau adolygiad yn ddiweddar o'r trefniadau trwyddedu ar gyfer rhai a oedd yn rhentu neu brydlesu tir gan Gyngor Sir y Fflint. Roedd y gwaith hwn oherwydd pryderon a godwyd am ddefnyddio anifeiliaid gwyllt fel gwobrau. Byddai'n gofyn i swyddogion ehangu cylch gwaith cwmpas y gwaith er mwyn cynnwys y penderfyniad arfaethedig a bod y canfyddiadau'n cael eu hadrodd cyn gynted ag sy'n bosibl i'r Cabinet. Pan fyddai'r gwaith wedi'i gwblhau, byddai angen datblygu Strategaeth Gyfathrebu er mwyn pwysleisio na fyddai Cyngor Sir y Fflint yn goddef arferion sydd wedi dyddio gymaint ar ei dir a byddai'n ceisio lliniaru unrhyw straen neu ddioddefaint i unrhyw anifail. Byddai gwyliadwriaeth y cyhoedd a chydymffurfiaeth trefnwyr digwyddiadau yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant.

Croesawodd y Cynghorydd Rose a'r Cynghorydd Preece yr ymateb a chefnogi'r awgrym bod cylch gwaith cwmpas y gwaith sy'n cael ei wneud gan yr adran Brisio ac Ystadau yn cael ei ehangu.

Gofynnodd y Cynghorydd Peers am eglurhad am ddefnyddio ceirw a mulod oherwydd bod ceirw wedi arwain gorymdaith mewn digwyddiad ym Mwcle yn ddiweddar, ac roedd fel pe bai'n derbyn gofal da a chroeso gan y plant. Teimlai y byddai cymryd hyn oddi ar y plant yn gam yn ôl, yn enwedig dros gyfnod y Nadolig.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Richard Jones at y noddfa i fulod yr oedd yn ei chefnogi. Roedd ar agor 365 diwrnod y flwyddyn er mwyn i bobl ymweld â hi ac roedd yn helpu i lunio cyswllt rhwng plant ac anifeiliaid oherwydd i'r plant nad oedd ganddynt anifail anwes, roedd hon yn ffordd o ryngweithio a dangos trugaredd. Soniodd am y cyfle i blant gael cyfle i feithrin perthynas wrth ryngweithio gydag anifeiliaid, a bod tynnu rhai plant oddi wrth hynny yn rhywbeth negyddol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Coggins Cogan at ei radd mewn Sŵoleg a dywedodd nad oedd llysysyddion yn mwynhau cael eu hamgylchynu gan gigysyddion. Pe bai carw ar ei ben ei hun, nad oedd yn naturiol gan mai eu greddf oedd bod mewn gyrroedd, byddai'n teimlo ar wahân, wedi'i gau i mewn gyda llawer o blant o'i gwmpas. Er y byddai'r anifail wedi'i hyfforddi i fod yn hamddenol, ni fyddai hyn yn naturiol ac ni ddylai anifeiliaid gael eu hyfforddi i guddio eu hofn, gorbryder a gofid er mwyn i bobl allu eu gweld, a bod hyn yn gywilyddus. Roedd hefyd yn aelod o'r noddfa i fulod, a'r gwahaniaeth oedd fod mulod yn eu stablau ac roedd ganddynt gyfle i symud oddi wrth bobl oedd yn ymweld â nhw pe baent am wneud hynny oherwydd nad oeddent wedi'u cau i mewn o bob ochr.

Yn ei hawl i ymateb, dyfynnodd y Cynghorydd Rose o ddarn o wybodaeth gan y noddfa i fulod a oedd y dweud nad oeddent yn cymeradwyo nac yn annog defnyddio mulod na'u cymysgrywoedd mewn unrhyw fath o adloniant. Dywedodd fod gwahaniaeth clir rhwng sefydliad a oedd wedi'i ffurfio er lles anifeiliaid a'r rhai nad oeddent wedi'u ffurfio i'r pwrpas hwn. Cytunodd fod tosturi'n bwysig i blant ac nad oedd yn rhywbeth a welir yn ystod cyfnod y Nadolig yn unig, ond ei fod yn rhywbeth sy'n datblygu trwy gydol eu hoes. Gan ymateb i gwestiwn a oedd yn sôn ei bod yn debyg bod y ceirw yn cael gofal da, roedd hwn yn fater oedd gan lawer o bobl nad oeddent yn gweithio ym maes lles anifeiliaid, pan fo elfennau dynol yn cael eu priodoli i anifail, pan mewn gwirionedd nad oedd eu hymddygiad naturiol yn cyd-fynd â'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl neu ei ragweld, ac roedd o'r farn mai hyn oedd y methiant mwyaf yn y sefyllfaoedd a ddisgrifiwyd mewn digwyddiadau.

O'i roi i'r bleidlais, cymeradwywyd y Rhybudd o Gynnig.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Rose yn cael ei gefnogi, gan gynnwys yr awgrym gan yr Aelod Cabinet, y Cynghorydd Bithell, fod cylch gwaith cwmpas y gwaith sy'n cael ei wneud gan yr adran Brisio ac Ystadau yn cael ei ehangu, yn cael ei dderbyn.

**60. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Dim.

**61. CWESTIYNAU**

Dywedodd y Cadeirydd fod dau gwestiwn wedi dod i law a bod ymateb wedi ei roi iddynt.  Roedd y rhain wedi'u dosbarthu i'r Aelodau.

**62. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU YNGLŶN Â CHOFNODION Y PWYLLGOR**

Dim.

**63. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD HEFYD YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 5.02pm)

..................................................

**Y Cadeirydd**